**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

17 Mehefin 2018

Annwyl Eluned

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Diolch ichi am gyfarfod â mi ar 26 Mehefin 2018 i drafod y darpariaethau ar gyfer y Gymraeg yn y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (y Bil).

Fel y gwyddoch, mae adran 71 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg, ac mae'n pennu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth honno. Roedd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gyfnod 1 y Bil yn argymell y dylid cryfhau'r adran hon trwy gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, a rhoddais ymrwymiad i wneud y cyfryw welliannau.

O'r hyn a ddeallais yn ein cyfarfod, eich bwriad at y dyfodol yw y bydd yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 caniateir gosod Safonau ar yr Ombwdsmon yn rhinwedd Atodlen 6 fel "personau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur". Byddai hyn yn cysoni'r rôl â deiliaid swyddi eraill, megis Archwilydd Cyffredinol Cymru ac amryw Gomisiynwyr Cymru.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ac mae'n gweithredu cynllun iaith Gymraeg gwirfoddol nad oes ganddo sail gyfreithiol. Yn fy marn i, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer

y Gymraeg yn cael sylw llawn ac er mwyn rhoi eglurder i Ombwdsmyn y dyfodol, mae angen pennu'r gofyniad hwn mewn deddfwriaeth.

Rwyf wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch y ffordd orau o gyflawni hyn. Ar ôl ystyried ei hymateb ac yn sgil ein cyfarfod, rwyf wedi paratoi gwelliant drafft i adran 71 sy'n cynnwys gofynion penodol a chlir (Atodiad A). Yn ogystal, mae'r gwelliant yn cynnwys darpariaeth fachlud, sy'n golygu y byddai'n peidio â bod mewn grym ar ôl i Lywodraeth Cymru wneud yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Yn fy marn i, mae'r dull arfaethedig hwn yn rhoi amddiffyniad i'r Gymraeg hyd nes bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyflwyno'i chynigion. Byddwn yn falch o gael eich barn am y gwelliant drafft.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*

**Atodiad A**

**71 Strategaeth ar gyfer y Gymraeg**

(1) Rhaid i'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

(2) Rhaid i'r strategaeth gynnwys—

(a) asesiad o'r angen i swyddogaethau'r Ombwdsmon gael eu cyflawni yn Gymraeg, a

(b) datganiad yn pennu'r camau y mae'r Ombwdsmon yn bwriadu eu cymryd i fodloni'r angen hwnnw~~, ac~~

~~(c) unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon~~.

(3) Rhaid i'r datganiad gynnwys trefniadau ar gyfer—

(a) y defnydd o'r Gymraeg gan yr Ombwdsmon a staff yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r gweithgareddau a restrir yn is-adran (4),

(b) hyfforddi a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg gan yr Ombwdsmon, ac

(c) cofnodi gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg staff yr Ombwdsmon.

(4) Y gweithgareddau a grybwyllir yn is-adran (3)(a) yw—

(a) gohebiaeth;

(b) galwadau ffôn;

(c) llinellau cymorth;

(d) cyfarfodydd personol;

(e) cyfarfodydd cyhoeddus;

(f) cyhoeddusrwydd a hysbysebu;

(g) arddangosfeydd cyhoeddus;

(h) cyhoeddiadau;

(i) ffurflenni;

(j) gwefannau a gwasanaethau ar-lein;

(k) arwyddion;

(l) derbyn ymwelwyr;

(m) hysbysiadau swyddogol;

(n) dyfarnu contractau;

(o) codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

(5) Rhaid i'r strategaeth gynnwys trefniadau ar gyfer—

(a) cofnodi a datrys cwynion a gaiff yr Ombwdsmon ynghylch gweithredu'r strategaeth,

(b) monitro a chofnodi gwybodaeth am y modd y caiff y strategaeth ei gweithredu, ac

(c) asesu'r effaith ar y Gymraeg yn sgil unrhyw benderfyniad polisi gan yr Ombwdsmon.

(6) Rhaid i'r Ombwdsmon baratoi a ch~~g~~yhoeddi'r strategaeth cyn ~~heb fod yn hwyrach na~~ diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad~~ar y diwrnod~~ y daw'r Ddeddf hon i rym~~caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol~~.

(7) O ran yr Ombwdsmon—

(a) rhaid iddo adolygu'r strategaeth—

(i) o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff ei chyhoeddi gyntaf, a

(ii) wedi hynny, o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff yr adolygiad blaenorol ei gwblhau, a

(b) rhaid iddo ymgynghori â'r cyfryw bersonau y mae'r Ombwdsmon o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy wrth wneud hynny.

(8) Caiff yr Ombwdsmon ddiwygio'r strategaeth yn dilyn adolygiad ac, os caiff y strategaeth ei diwygio, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

(9) Mae'r adran hon yn peidio â bod yn gymwys os a phryd y bydd yr Ombwdsmon yn dod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 25(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gydymffurfio â safon.

~~(4) Caiff yr Ombwdsmon adolygu'r strategaeth ar unrhyw adeg.~~

~~(5) Pan fo'r Ombwdsmon yn adolygu'r strategaeth ac o'r farn bod angen newid, rhaid i'r Ombwdsmon—~~

~~(a) adolygu'r strategaeth, a~~

~~(b) cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig~~.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565